# Synhwyro tân gyda Rhyngrwyd Popeth

LLYFRYN MATHEMATEG I FYFYRWYR



Pam ydym yn gosod synwyryddion tân? A ydych yn gwybod ble maent yn eich ysgol neu yn eich cartref? Sut mae synwyryddion tân yn gweithio?

Sut ellid defnyddio Rhyngrwyd Popeth - a'r cysylltedd sy'n deillio o hynny - wrth synhwyro tân?

## Mathau o gamerâu

Gofynnwyd i chi ddiogelu pencadlys cwmni rhag tân gan ddefnyddio tri gwahanol fath o gamera. Pa gamera ydych chi'n meddwl oedd yn cynnig y gwerth gorau am arian? Pa un oedd leiaf effeithiol? Sut fu i chi benderfynu ble i osod y camerâu?

## Her gosod synwyryddion tân:

A fu i chi ystyried mwy nag un ffordd o osod y camerâu? Sut fu i'ch tîm benderfynu ble i osod pob camera?

## Nodiadau cyflwyno

**Pa rôl fydd pob un yn eich grŵp yn ei berfformio? Sut fyddwch yn ymdrin â'r prif bwyntiau sy'n cael eu cynnwys yn eich cynnig? Mae'r pethau i'w hystyried yn cynnwys:**

- Faint o arwynebedd mae eich cynlluniau yn ei gynnwys?
- Dadansoddiad o gost - faint fyddwch yn ei godi am eich
- cynlluniau? Faint o'r gwahanol gamerâu y bu i chi eu defnyddio a
- pham?
- Allwch chi awgrymu mwy nag un opsiwn i'r cwmni ddewis
- ohonynt? A oes gennych enw cwmni, logo a slogan?
- A ydych wedi cynnwys syniadau ynghylch sut y gellid defnyddio Rhyngrwyd Popeth i gysylltu'r system? Pwy fydd yn cael ei hysbysu pan fo tân a sut fyddant yn cael eu rhybuddio?